



## Canllawiau i Ymgeiswyr: Gwneud cais o dan Ddeddf Hapchwarae 2005 am drosglwyddo trwydded safle

Pan fydd trefniadau rheoli safle hapchwarae sydd eisoes â thrwydded yn newid i weithredwr gwahanol, mae angen gwneud cais i'r awdurdod trwyddedu am drosglwyddo'r drwydded.

### Sut mae gwneud cais

Dylai eich cais gynnwys y canlynol:

- Y drwydded safle bresennol \*
- Caniatâd ysgrifenedig i'r trosglwyddiad gan ddeiliad presennol y drwydded
- Y ffi briodol am y cais (nodir isod).

*\* Os nad oes modd darparu'r drwydded safle gyda'ch cais, dylid darparu datganiad yn nodi'r rhesymau dros hyn, ynghyd â chais am gopi o'r drwydded.*

Dylid anfon y ffurflen gais wedi'i llenwi a'r holl ddogfennau ategol at yr Adain Drwyddedu, yn y cyfeiriad a nodir ar y nodiadau hyn.

### Ymgynghori

Wrth wneud cais am drosglwyddo trwydded, mae'n rhaid cyflwyno hysbysiad ynghylch eich cais i nifer o Awdurdodau Cyfrifol, a hynny cyn pen 7 diwrnod ar ôl cyflwyno eich cais. Mae fformat wedi'i bennu ar gyfer yr hysbysiad hwn, ac mae templedi ar gael yng nghefn y nodiadau hyn -

- Defnyddiwch Ffurflen A os mai dim ond un person neu gwmni sy'n cyflwyno'r cais.
- Defnyddiwch Ffurflen B os yw'r cais yn cael ei gyflwyno ar y cyd gan ddau berson a/neu gwmni neu fwy.

Rhaid cyflwyno hysbysiad i'r awdurdodau a nodir isod:

### Manylion Cyswllt yr Awdurdod Trwyddedu a'r Awdurdodau Cyfrifol.

<b><u>Yr Awdurdod Trwyddedu</u></b>	
Yr Adain Drwyddedu	Rhif Ffôn: 0845 6580445
Is-adran Diogelu'r Cyhoedd	E-bost: <a href="mailto:diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk">diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk</a>
Cyngor Sir Caerfyrddin	
3 Heol Spilman	
Caerfyrddin	Rhif ffacs: 01267 229141

<p>Sir Gaerfyrddin SA31 1LE</p>	
<p><b><u>Y Comisiwn Hapchwarae</u></b></p> <p>Victoria Square House  Victoria Square  Birmingham  B2 4BP</p>	<p>Rhif Ffôn: 0121 230 6500</p> <p>E-bost: <a href="mailto:info@gamblingcommmission.gov.uk">info@gamblingcommmission.gov.uk</a></p> <p>Rhif ffacs: 0121 237 2236</p>
<p><b><u>Cyllid a Thollau ei Mawrhydi</u></b></p> <p>National Registration Unit  Portcullis House  21 India street  Glasgow  G2 4PZ</p>	<p>Rhif Ffôn: 0141 555 3633</p> <p>E-bost: <a href="mailto:nrbetting&amp;gaming@hmsc.gsi.gov.uk">nrbetting&amp;gaming@hmsc.gsi.gov.uk</a></p>
<p><b><u>Yr Awdurdod Cynllunio</u></b></p> <p>Pennaeth Cynllunio  Cyngor Sir Caerfyrddin  40 Heol Spilman  Caerfyrddin  Sir Gaerfyrddin  SA31 1LQ</p>	<p>Rhif Ffôn: 01267 224663 / 01267 224882  / 01267 224118</p> <p>E-bost: <a href="mailto:cynllunio@sirgar.gov.uk">cynllunio@sirgar.gov.uk</a></p> <p>Rhif ffacs: 01267 237612</p>
<p><b><u>Yr Heddlu</u></b></p> <p>Swyddog Trwyddedu  Heddlu Dyfed-Powys  Gorsaf Heddlu Rhydaman, Heol y Ffowndri  Rhydaman, Sir Gaerfyrddin, SA18 2LS</p>	<p>Rhif Ffôn: 01269 590578</p> <p>E-bost: <a href="mailto:Mike.Price@Dyfed-Powys.pnn.police.uk">Mike.Price@Dyfed-Powys.pnn.police.uk</a></p> <p>Rhif Ffacs: 01269 591892</p>

<p><b><u>Iechyd y Cyhoedd</u></b></p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd  Is-adran Diogelu'r Cyhoedd  Cyngor Sir Caerfyrddin  3 Heol Spilman  Caerfyrddin  Sir Gaerfyrddin  SA31 1LE</p>	<p>Rhif Ffôn: 0845 6580445</p> <p>E-bost: <a href="mailto:diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk">diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk</a></p> <p>Rhif ffacs: 01267 221616</p>
<p><b><u>Yr Awdurdod Tân</u></b></p> <p>Comander y Sir  Pencadlys Ardal Reoli Sirol Sir Gaerfyrddin, Lôn  Pisgwydd, Caerfyrddin,  Sir Gaerfyrddin SA31 1SP</p>	<p>Rhif Ffôn: 0870 6060699</p> <p>E-bost: <a href="mailto:Mail@Mawwfire.gov.uk">Mail@Mawwfire.gov.uk</a></p> <p>Rhif Ffacs: 01267 222382</p>
<p><b><u>Y Gwasanaethau Plant</u></b></p> <p>Pennaeth y Gwasanaethau Plant  Cyngor Sir Caerfyrddin  5 Heol Spilman  Caerfyrddin  Sir Gaerfyrddin  SA31 1LE</p>	<p>Rhif Ffôn: 01267 228916</p> <p>E-bost: <a href="mailto:gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk">gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk</a></p> <p>Rhif Ffacs: 01267 228908</p>

Bydd sylwadau gan unrhyw rai o'r Awdurdodau Cyfrifol hyn yn cael eu derbyn yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau ar y dyddiad y mae'r cais yn cael ei gyflwyno. Os bydd sylw dilys yn dod i law, bydd y cais yn cael ei gyfeirio at gyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu er mwyn i benderfyniad gael ei wneud yn ei gylch.

Nid oes angen hysbysebu mewn papur newyddion neu ar y safle fel rhan o gais am drosglwyddo trwydded.

Bydd methu â hysbysu'r Awdurdodau Cyfrifol yn briodol yn golygu y bydd oedi o ran penderfynu ynghylch eich cais.

## **Trwyddedau Gweithredu a Thrwyddedau Personol**

Cyn y gellir gwneud unrhyw gais am drosglwyddo trwydded safle, mae'n orfodol bod cais am drwydded weithredu berthnasol wedi cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Hapchwarae. Mae rhagor o fanylion am drwyddedau gweithredu a thrwyddedau personol ar gael yn uniongyrchol gan y Comisiwn Hapchwarae drwy ffonio 0121 230 6666, neu drwy'r wefan: [www.gamblingcommission.gov.uk](http://www.gamblingcommission.gov.uk).

Nodwch na fydd trwydded safle yn cael ei rhoi cyn cael cadarnhad bod trwydded weithredu briodol wedi'i rhoi.

## **Awdurdod interim**

Mae Cwestiwn 17 ar y ffurflen gais yn caniatáu i'r ymgeiswyr ofyn eu bod yn cael eu trin fel petaent yn ddeiliaid y drwydded yn ystod y cyfnod cyflwyno cais. Bydd hyn yn golygu bod modd i safle sefydledig barhau i weithredu o dan awdurdod y drwydded safle tra bo'r cais yn cael ei ystyried. Fodd bynnag, nid yw defnyddio'r ddarpariaeth hon yn eithrio'r ymgeisydd o unrhyw ofyniad arall o dan y Ddeddf, megis yr angen i ddal trwydded weithredu ddilys. Bydd effaith yr adran hon yn dechrau ar ôl i'r awdurdod trwyddedu gael y cais, ac yn gorffen ar ôl i benderfyniad gael ei wneud ynghylch y cais.

## **Caniatâd gan ddeiliad presennol y drwydded**

Mae angen i gais am drosglwyddo trwydded safle gynnwys llythyr caniatâd ysgrifenedig gan ddeiliad presennol y drwydded, er mwyn dangos ei fod/bod yn caniatáu i'r drwydded gael ei throsglwyddo i'r ymgeisydd newydd.

Mae templed ar gyfer y llythyr hwn wedi'i atodi yng nghefn y nodiadau hyn. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd modd cael caniatâd gan ddeiliad presennol y drwydded - er enghraifft, os yw'r unigolyn hwnnw wedi gadael y safle ac ni wyddys ble y mae. Yn yr amgylchiadau hyn, gall yr awdurdod trwyddedu benderfynu peidio â mynnu bod llythyr caniatâd yn cael ei gyflwyno - fodd bynnag, disgwylir y bydd yr ymgeisydd wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i geisio cysylltu â deiliad y drwydded, a bod datganiad o'r camau hyn yn cael ei gyflwyno yn lle'r llythyr caniatâd.

Nodwch nad yw'r ddarpariaeth hon yn berthnasol os yw deiliad blaenorol y drwydded wedi gwrthod rhoi caniatâd i drosglwyddo'r drwydded.

## **Ffioedd Gwneud Cais**

Mae'r ffi'n dibynnu ar y math o drwydded safle yr ydych yn gwneud cais am ei throsglwyddo. Mae'r holl ffioedd am drwyddedau safle yn cael eu pennu gan yr awdurdod trwyddedu lleol, hyd at uchafswm a bennir gan y rheoliadau.

## Ffioedd Trwyddedau

Mae'r tabl canlynol yn dangos y ffioedd perthnasol am wneud cais sydd wedi'u pennu gan yr Awdurdod o dan Ddeddf Hapchwarae 2005.

<b>Math o Safle</b>	<b>Cais Llwybr Cyflym Trosiannol</b>	<b>Cais Trosiannol nad yw'n un Llwybr Carlam</b>		<b>Cais Newydd</b>		<b>Ffi Flynyddol</b>	
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
Clwb Bingo	202	842		1648		480	
Safleoedd Betio (ac eithrio traciau)	198	721		1415		302	
Traciau	144	600		1200		480	
Canolfannau Adloniant Teulu	207	648		1237		468	
Canolfan Hapchwarae i Oedolion	202	645		1236		623	
	<b>Cais am Amrywio</b>	<b>Cais am Drosglwyddo</b>	<b>Cais am Adfer</b>	<b>Cais am Ddatganiad Amodol</b>	<b>Cais am Drwydded (deiliaid datganiad amodol)</b>	<b>Copïo'r Drwydded</b>	<b>Hysbysiad ynghylch Newid</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
Clwb Bingo	840	576	576	1680	576	25	50
Safleoedd Betio (ac eithrio traciau)	720	576	576	1440	576	25	50
Traciau	600	456	456	1200	456	25	50
Canolfannau Adloniant Teulu	640	608	608	1280	608	25	50
Canolfannau Hapchwarae i Oedolion	640	768	768	1280	768	25	50

Dylai pob siec fod yn daladwy i "Cyngor Sir Caerfyrddin".

## Deddf Hapchwarae 2005 - Caniatâd i drosglwyddo Trwydded Safle

**Rwyf i/Rydym ni**.....  
Enw(au) deiliad(deiliaid) presennol y drwydded

**Sy'n dal trwydded safle a roddwyd o dan Ran 8 o'r Ddeddf Hapchwarae 2005, mewn perthynas â'r canlynol:**

.....  
.....  
.....  
.....  
.....

[cyfeiriad y safle trwyddedig]

**Rhif y Drwydded Safle**..... [Rhif y Drwydded Safle]

### Math o Safle

.....  
[Categori o safle e.e. Canolfan Hapchwarae i Oedolion, Betio (Arall), Betio (Trac), Bingo, Canolfan Adloniant Teulu]

**Drwy hyn yn caniatáu i'r drwydded hon gael ei throsglwyddo i:**

.....  
[Enw(au) y darpar ymgeisydd(ymgeiswyr)]

Llofnodwyd .....  
{Enw'r perchennog blaenorol]

Printiwch yr Enw .....

Dyddiad .....

Swydd .....



**Hysbysiad A**

**HYSBYSIAD YNGHYLCH CAIS AM DROSGLWYDDO TRWYDDED SAFLE**

*Cyhoeddir yr hysbysiad hwn yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 160 o Ddeddf Hapchwarae 2005*

Hysbysir drwy hyn fod:

.....  
[Nodwch enw llawn yr ymgeisydd. Dylid nodi'r un enw sydd wedi'i nodi yn Rhan 1 o'r cais am drosglwyddo'r drwydded safle.]

o'r cyfeiriad canlynol:.....  
.....  
.....

Côd post.....  
[Nodwch gyfeiriad llawn yr ymgeisydd. Dylid nodi'r un cyfeiriad sydd wedi'i nodi yn Rhan 1 o'r cais am drosglwyddo'r drwydded safle.]

rhif ei drwydded/thrwydded weithredu yw.....

a gyflwynodd gais am drwydded weithredu ar.....

[Dileer fel y bo'n briodol. Nodwch gyfeirnod trwydded weithredu'r ymgeisydd (fel y nodir yn y drwydded weithredu). Os oes cais am drwydded safle wrthi'n cael ei gyflwyno, nodwch ddyddiad cyflwyno'r cais.]  
wedi gwneud cais am drosglwyddo trwydded safle o'r math canlynol iddo/iddi:

.....  
[Nodwch y math o drwydded safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef]

Mae'r cais yn ymwneud â'r safle trwyddedig canlynol:  
.....  
.....  
.....

[Nodwch yr enw masnachu a ddefnyddir ar y safle, a chyfeiriad y safle (neu, os nad oes un, rhowch ddisgrifiad o'r safle a'i leoliad).]

Mae'r cais wedi'i gyflwyno i'r awdurdod trwyddedu canlynol:

**Cyngor Sir Caerfyrddin**

**3 Heol Spilman**



**Caerfyrddin**

**Sir Gaerfyrddin SA31 1LE**

Gwefan: [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

**Deiliad(deiliaid) presennol y drwydded yw:**

.....  
[Nodwch enw llawn deiliad(deiliaid) y drwydded fel sydd wedi'i nodi ar y drwydded safle (os yw hyn yn hysbys).]

Rhif y drwydded safle (os yw hynny'n hysbys):.....  
[Nodwch yma gyfeirnod y drwydded safle fel y nodir ar y drwydded ei hun.]

Mae gwybodaeth am y cais ar gael gan yr awdurdod trwyddedu, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer gweld y manylion am y cais.

Gall yr unigolyn canlynol sy'n gysylltiedig â'r ymgeisydd roi rhagor o wybodaeth am y cais:

.....  
[Mae'r adran hon yn ddewisol a dylid ei llenwi os yw'r ymgeisydd yn dymuno darparu enw, rhif ffôn ac (os yw ar gael) gyfeiriad e-bost unigolyn sy'n gysylltiedig â'r ymgeisydd sy'n gallu ateb cwestiynau a rhoi rhagor o wybodaeth am y cais.]

**Mae'n rhaid i unrhyw sylwadau o dan Adran 161 o Ddeddf Hapchwarae 2005 gael eu cyflwyno erbyn y dyddiad canlynol fan hwyraf:**

.....  
[Nodwch y diwrnod olaf y gellir cyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r cais. Y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau yw 28 diwrnod (yn gynhwysol) gan ddechrau ar y diwrnod yr oedd y cais wedi cael ei gyflwyno i'r awdurdod trwyddedu.]